

PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MAWRTH, 12 HYDREF 2021

Yn Cynghorydd Howells(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Henshaw, Gordon, Gavin Hill-John, Robson a/ac Stubbs

31 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lay a'r Cynghorydd Parkhill.

32 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

33 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2021 yn gofnod cywir.

34 : ADFYWIO STRYD JAMES, MERCHANT PLACE AC ADEILAD CORY

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai diben yr eitem hon oedd craffu cyn penderfynu ar adroddiad i'r Cabinet sy'n gofyn am awdurdod y Cabinet i waredu adeiladau ar Merchant Place ac Adeilad Cory yn ogystal â gwaredu tir cyngor priodol i'r Cyfrif Refeniw Tai.

Cwmpas y gwaith craffu heddiw oedd ystyried y cynigion, sut y maent yn cyd-fynd â nod y Cyngor o ddarparu datblygiadau defnydd cymysg o ansawdd uchel ac o wella gweithdai'r Royal Stuart a Douglas, y goblygiadau ariannol i'r Cyngor gan gynnwys yr effaith ar y Cyfrif Refeniw Tai, a oes unrhyw risgiau i'r Cyngor, a sut mae'r amserlenni ar gyfer cyflawni yn cyd-fynd ag amserlenni ehangach Glanfa'r Iwerydd, yn enwedig yr Arena Dan Do. Byddai unrhyw sylwadau ac argymhellion yn cael eu hanfon at y Cabinet cyn y cyfarfod ddydd Iau.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Goodway– yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu; Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd; Chris Barnett – Rheolwr Gweithredol – Prosiectau Mawr ac Eirian Jones – y Prif Syrfêwr i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Swyddogion i roi eu cyflwyniad ar y rhan agored o'r eitem, ac ar ôl hynny gwahoddodd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr ymarfer marchnata meddal a oedd yn ymarfer ar y cyd ar gyfer y ddau safle. Nododd yr Aelodau nad oeddent wedi gweld y dull hwn o'r blaen a gofynnon nhw beth oedd y meddyliau y tu ôl iddo. Dywedodd y swyddogion fod profion marchnad feddal yn cael eu cynnal fel ymarfer ar y cyd ar y ddau safle ond fe'i gwnaed yn glir na ddylid cysylltu unrhyw gynigion, nid oedd unrhyw ymrwymiad mewn ymarfer marchnad feddal. Ychwanegodd y swyddogion, wrth i'r ymarfer ddigwydd, fod tîm Tai'r Cyngor yn cynnal astudiaeth o ddichonoldeb ar safle Stryd

James a'i fod wedi cael ei ystyried yn hyfyw ar eu cyfer a gofynnon nhw iddo gael ei neilltuo i'r Cyfrif Refeniw Tai.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld y safleoedd hyn yn cael eu datblygu ar ôl peidio â chael eu defnyddio am gyfnod mor hir ond nodon nhw fod y ddau safle wedi'u hamgylchynu gan ffyrdd prysur. Gofynnodd yr Aelodau am y mynediad, yn enwedig mewn perthynas â'r Merchant Place/Adeiladau Cory. Dywedodd y swyddogion fod Coleg Dukes yn rhoi lleoedd yn bennaf i Fyfirwyr Rhyngwladol 17+ oed, y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn byw ar y safle gan fod rhywfaint o lety yn cael ei adeiladu ar y datblygiad; gall eraill fyw ar Stryd Pen y Lanfa. Byddai modd cyrraedd y coleg drwy Merchants Place ar Stryd James.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Swyddogion i roi eu cyflwyniad ar y wybodaeth Gyfrinachol ac atgoffodd yr Aelodau fod angen i'r Pwyllgor ystyried hyn mewn sesiwn gaeedig i drafod gwybodaeth yr ystyrir ei bod yn eithriedig, yn unol â pharagraffau 14 ac 16 o Ran 4 a pharagraff 21 Rhan 5 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD: gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

35 : CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Dywedwyd wrth yr aelodau, mewn perthynas â chraffu ar y CDLIN yn y dyfodol, y byddai'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fyddai'n edrych ar opsiynau strategol y CDLIN ac roedd Cadeirydd yr Amgylchedd wedi gwahodd cynrychiolydd o bob Pwyllgor Craffu i eistedd ar y grŵp. Roedd y Cylch Gorchwyl yn cael ei lunio ar hyn o bryd ond roedd yn debygol y byddai'r tri chyfarfod rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror. Gofynnwyd am ddatganiadau o ddiddordeb, derbyniwyd diddordeb cychwynnol gan y Cynghorydd Howells a'r Cynghorydd Robson.

36 : GOHEBIAETH

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr holl ohebiaeth yn gyfredol ar wahân i ymateb gan y Cynghorydd Wild i'r llythyr ar y cyd gan bob un o'r pum Cadeirydd Craffu ar y CDLIN.

37 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim.

38 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 16 TACHWEDD 4.30PM

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm